OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 40 (Cy.12)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Un o'r gofynion ynghylch y telerau y penodir person i swydd, neu fod person yn dal swydd, yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (cynorthwywyr i grwpiau gwleidyddol) yw bod cyfradd y tâl blynyddol ar gyfer y swydd yn llai na £13,500 neu'n swm uwch yn ôl yr hyn a bennir drwy Orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu mai'r gyfradd dâl flynyddol fydd y mwyafswm a bennir o bryd i'w gilydd gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol fel yr un sy'n gymwys i bwynt 44 ar y golofn gyflog ar eu graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion llywodraeth leol.

O ran awdurdodau lleol yng Nghymru, dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) 1995.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 40 (W.12)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Assistants for Political Groups) (Remuneration) (Wales) Order 2009

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

One of the requirements relating to the terms on which a person is appointed to, or holds, an appointment in pursuance of section 9 of the Local Government and Housing Act 1989 (assistants for political groups) is that the annual rate of remuneration for the post is less than £13,500 or such higher amount as may be specified by Order made by the Welsh Ministers.

This Order, which applies to local authorities in Wales provides for the annual rate of remuneration to be the maximum amount that is from time to time fixed by the National Joint Council for Local Government Services as that applicable to spinal column point 44 on their salary scales for local government officers.

As respects local authorities in Wales, the Local Government (Assistants for Political Groups) (Remuneration) Order 1995 is revoked.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 40 (Cy.12)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Ionawr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *19 Ionawr 2009* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 9(4) a 9(4A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council*") yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol;

ystyr "Cynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council's Scheme*") yw Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(**1**) 1989 p.42.

(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(O.S. 1999/672) a paragraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i y Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 40 (W.12)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Assistants for Political Groups) (Remuneration) (Wales) Order 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *14 January 2009* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *19 January 2009* |
| *Coming into force* | *1 April 2009* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 9(4), 9(4A) of the Local Government and Housing Act 1989(**1**) and now vested in them(**2**), make the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of this Order is the Local Government (Assistants for Political Groups) (Remuneration) (Wales) Order 2009 and it comes into force on 1 April 2009.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government and Housing Act 1989;

"the National Joint Council" ("*y Cyd-gyngor Cenedlaethol*") means the National Joint Council for Local Government Services; and

"the National Joint Council's Scheme" ("*Cynllun y Cyd-gynor Cenedlaethol*") means the National Joint Council's Scheme of Conditions of Service.

(**1**) 1989 c.42.

(**2**) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and paragraph 30(1) and (2)(a) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

**3**.—(1) Y pwynt a bennir at ddibenion adran 9(4)(a) o'r Ddeddf yw pwynt 44 ar y golofn gyflog ar y graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion awdurdod lleol a ymgorfforir yng Nghynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

(2) Y swm sy'n cyfateb i'r pwynt a bennir ym mharagraff (1) yw'r swm hwnnw a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol o bryd i'w gilydd o ran swyddi llawnamser o dan awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr.

**Dirymu**

**4**. I'r graddau y mae'n gymwys i awdurdodau perthnasol yng Nghymru, dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl)1995(**1**).

**3**.—(1) The point specified for the purposes of section 9(4)(a) of the Act is spinal column point 44 of the salary scales for local government officers incorporated in the National Joint Council's Scheme.

(2) The amount which corresponds to the point specified in paragraph (1) is such amount as is published by the National Joint Council from time to time with respect to full-time posts under a local authority in England and Wales.

**Revocation**

**4**. In so far as it applies to relevant authorities in Wales, the Local Government (Assistants for Political Groups) (Remuneration) Order 1995(**1**) is revoked.

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

14 Ionawr 2009

14 January 2009

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 1995/2456.

(**1**) S.I. 1995/2456.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 40 (Cy.12)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 40 (W.12)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Government (Assistants for Political Groups) (Remuneration) (Wales) Order 2009

**£4.00**

W414/02/09 ON